

Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 27 Mehefin 2016

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Y Prif Weinidog (Cadeirydd)
- Mark Drakeford AC
- Vaughan Gething AC
- Lesley Griffiths AC
- Jane Hutt AC
- Carl Sargeant AC
- Ken Skates AC
- Kirsty Williams AC
- Mick Antoniw AC
- Alun Davies AC
- Julie James AC

Swyddogion:

- Syr Derek Jones KCB, Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Matt Greenough, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- David Costa, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Y Cabinet, y Cyfarfod Llawn ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor (cofnodion)
- Damian Roche, Y Cabinet, y Cyfarfod Llawn ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Ymddiheuriadau:

- Rebecca Evans AC

Cynhaliodd y Cabinet funud o dawelwch i gofio'r rheini a gollodd eu bywydau yn yr ymosodiad gan derfysgwyr yn Sousse, Tiwnisia ar 26 Mehefin 2015.

Eitem 1: Ymateb Llywodraeth Cymru i ganlyniadau'r refferendwm ar barhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd

1.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet ei fod wedi galw'r cyfarfod er mwyn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i ganlyniadau refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE), ac i gytuno ar gamau gweithredu strategol ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig, a'r tymor hir.

1.2 Fe wnaeth y Prif Weinidog ail-ddatgan bod canlyniad y refferendwm wedi bod yn hynod siomedig, a bod angen bellach nodi'n glir y risgiau sylweddol a allai godi yn sgil tynnu allan o'r UE, gan ystyried beth fyddai'r ffordd orau o ymateb iddynt. Roedd yn bwysig darparu arweinyddiaeth gadarn, yn enwedig wrth ymdrin â'r economi, ac ar yr un pryd parchu penderfyniad pobl Cymru.

1.3 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y chwe blaenoriaeth frys y mae eu hangen i amddiffyn buddiannau Cymru. Y rhain fyddai sail y strategaeth ar gyfer lleddfu effeithiau tynnu allan o'r UE.

1.4 O ran diogelu swyddi, roedd yr effeithiau i'w teimlo eisoes, ac roedd yn bwysig bod Gweinidogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i dawelu ofnau a chynnal hyder a sefydlogrwydd o fewn economi Cymru. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith baratoi cynllun o fesurau ar gyfer meithrin hyder, er mwyn rhoi sicrwydd i fusnesau a buddsoddwyr fod Cymru ar agor i fusnes, a bod yr economi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

1.5 Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn San Steffan er mwyn sicrhau y byddai'r Llywodraeth honno'n cadw at yr ymrwymiad a wnaeth yn ei araith ymddiswyddo, sef y byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r telerau ac amodau ar gyfer tynnu'r DU allan o'r Undeb Ewropeaidd. Cytunwyd y byddai angen i'r Ysgrifennydd Parhaol ddilyn hynny drwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn Llywodraeth y DU, gan anfon copiâu hefyd at bob adran yn Whitehall, i ail-bwysleisio sylwadau'r Prif Weinidog ynghylch rhan Llywodraeth Cymru yn y broses negodi.

1.6 Roedd yn bwysig barhau i gael mynediad i farchnad sengl yr UE, a byddai angen cryfhau swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau Gweinidogion Cymru yn cael eu datblygu'n uniongyrchol gyda'r UE. Byddai'r swyddfa'n parhau i gael ei staffio gan weision sifil Llywodraeth Cymru gan dynnu ar arbenigedd allanol yn ôl yr angen. Fodd bynnag, ni fyddai'r ffaith bod hyn yn digwydd yn disodli'r angen i gymryd rhan yn nhîm negodi Llywodraeth y DU. Roedd Cymru wedi meithrin llawer o ewyllys da ym Mrwsel dros gyfnod o flynyddoedd, ac roedd yn bwysig defnyddio hynny'n er budd Llywodraeth Cymru.

1.7 Roedd yna fodelau y dylid edrych arnynt yn fanwl o ran cadw mynediad i'r farchnad sengl. Roedd y modelau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gwahanol drefniadau ar waith ar gyfer gwahanol diriogaethau o fewn Aelod-wladwriaethau. Dwy enghraifft o'r fath yw'r Ynys Werdd a Denmarc, a'r Ynysoedd Dedwydd a Sbaen.

1.8 O ran dilysu unrhyw gytundeb, byddai angen i bob un o ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig gymryd rhan, yn hytrach na dim ond San Steffan ar ei ben ei hun.

1.9 Bellach rhaid adolygu fformiwla Barnett er mwyn gwneud yn iawn am golli cyllid o Ewrop, a phwysleisiodd y Cabinet yr angen i sefydlu fframwaith cyllidol newydd. Roedd angen archwilio unrhyw bosibiliadau o ran parhau i fod yn rhan o Raglenni penodol yr UE megis PAC a Chronfeydd Strwythurol ar y telerau presennol hyd at y dyddiad dod i ben yn 2020.

1.10 Roedd yn glir y byddai goblygiadau cyfansoddiadol i ganlyniadau'r refferendwm, ac y byddai'r rheini'n cael effaith ar Fil Cymru, a bod y Bil, ar ei ffurf bresennol, yn annigonol. Byddai'r berthynas rhwng y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y DU ar sail hollol wahanol, yn enwedig yng nghyd-destun y ffaith bod yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi pleidleisio dros aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Roedd yn debygol y byddai refferendwm arall ar annibyniaeth yn yr Alban, a phroblemau posibl pe bai rheolaethau'n cael eu hail-gyflwyno ar y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth.

1.11 Roedd yna bosibiliadau o drafod ymhellach gyda Phlaid Cymru, a dywedodd y Prif Weinidog wrth y Gweinidogion y byddai'n awgrymu creu pwyllgor cyswllt ychwanegol i drafod goblygiadau canlyniadau'r refferendwm a'r camau nesaf yr oedd angen eu cymryd.

1.12 Cytunodd Gweinidogion y byddai buddiannau Cymru a'i phobl yn ganolog i'w strategaeth, o ystyried yr helbul gwleidyddol a'r ansicrwydd presennol. Roedd cytundeb ar draws y Llywodraeth y dylid defnyddio pob dull o roi pwysau er mwyn sicrhau bod swyddi a chymunedau Cymru yn cael eu diogelu cymaint â phosibl drwy gyfnod a allai fod yn anodd, ac y byddai'r Llywodraeth yn parhau i weithio i sicrhau'r fargen orau i Gymru.

1.13 Roedd y Cabinet am ail-gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn edrych tuag allan; bod iddi agwedd ryngwladol; a'i bod yn awyddus i gefnogi busnesau, gan ymrwymo i greu economi sy'n deg ac sy'n cynnig cyfle i bawb.

1.14 Roedd yr awyrgylch a oedd wedi ei greu gan rhai elfennau yn yr ymgyrch i adael yr UE yn destun pryder uniongyrchol, ac roedd yr effeithiau i'w teimlo eisoes gan rhai sectorau yn ein cymdeithas. Dros y penwythnos, bu achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl nad oeddent o dras Brydeinig, a hefyd yn erbyn pobl o leiafrifoedd ethnig sydd wedi eu geni yng Nghymru, a'r ddau yn peri trallod. Cytunodd Gweinidogion ei bod yn bwysig bod pobl yn deall nad yw'r fath ymddygiad yn dderbyniol yng nghymdeithas Cymru, a bod angen sicrhau wrth wladolion tramor bod croeso iddynt fel o'r blaen. Roedd Cymru yn parhau'n gymdeithas oddefgar a chroesawgar.

1.15 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n ysgrifennu at Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau i dynnu eu sylw at y sefyllfa newidiol, gan ofyn iddynt ddarparu cefnogaeth i'r holl gymunedau ac unigolion y mae hyn yn effeithio arnynt.

1.16 Hefyd roedd angen ymgysylltu â'r cymunedau a oedd wedi pleidleisio o blaid gadael, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny a oedd wedi cael cyllid gan yr UE, er mwyn ceisio deall eu pryderon ac ymateb iddynt. Ar ben hynny, roedd yn bwysig cynnig sicrwydd i'r gymdeithas ehangach, yn benodol bobl ifanc yr oedd y mwyafrif llethol ohonynt wedi pleidleisio o blaid aros.

1.17 Un o'r pryderon mawr oedd gwendid cymharol y cyfryngau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, a'r ffaith mai ffynonellau newyddion sy'n canolbwyntio ar Loegr a oedd

wedi dylanwadu ar eu barn yn bennaf. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos papurau newydd.

1.18 O ran paratodau mewnol, derbyniwyd y byddai angen ail-ystyried Strategaeth y Gyllideb, a oedd wedi ei chytuno yn y Cabinet yr wythnos gynt. Yn ogystal â cholli cyllid yr UE, byddai costau gweinyddol ychwanegol.

1.19 Yn sgil yr addewidion a wnaed i bobl Cymru yn ystod yr ymgyrch na fyddent o dan anfantais pe baent yn pleidleisio dros adael, byddai'r Prif Weinidog yn ceisio sicrwydd brys gan y Prif Weinidog yn San Steffan y byddai unrhyw golled oherwydd colli cyllid o Ewrop un cael ei warantu, er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â phrosiectau a oedd yn hanfodol i Economi Cymru.

1.20 O ran yr ymateb gwleidyddol, awgrymid y gallai Pwyllgor wrth gefn y Cynulliad, ystyried goblygiadau tynnu allan o'r UE.

1.21 Cytunodd y Cabinet y byddai angen i unrhyw fargen fod yn gymeradwy yng ngolwg pobl Cymru. Nodwyd y byddai datganiad i'r wasg ar ganlyniadau trafodaeth y Cabinet yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw.

**Y Cabinet, y Cyfarfod Llawn ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
Mehfin 2016**